# DINESYDD Medi

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH — RHIF 52 — 1978

# Gŵyl Theatr Cymru '78

**CAERDYDD, THEATR SHERMAN, 9 — 14 HYDREF**

**Bydd Theatr Cymru yn torri cwys newydd yn yr Hydref eleni gyda saith wythnos o ŵyl theatrig mewn saith theatr o gwmpas Cymru. Bydd yn gyfle i greu naws gŵyl gyda chyflwyniadau tra gwahanol gydol yr wythnos. Y gobaith yn wir yw i'r mudiadau sicrhau fod yr ŵyl yn cael ei gynnwys efallai yn rhan o weithgarwch y tymor — a dyma sydd eisoes wedi digwydd gan nifer o ganghennau Merched y Wawr, y W.I. a'r Urdd. Bydd rhywbeth yn yr ŵyl at ddant pawb, ond fel popeth arall rhaid wrth gynulleidfa ac mi fydd cydweithrediad cymdeithasau yn dderbyniol dros ben.**

**Felly, sicrhewch fod dyddiadau'r ŵyl ar raglen eich cymdeithas a'ch mudiadau chi ar gyfer yr Hydref.**



*Pete Meazey, perchennog Siop y Triban, yn rhoi llyfr yn anrheg i'r Dr. David Owen, yr Ysgrifennydd Tramor, ar ei ymweliad â maes yr Eisteddfod. Beth oedd y llyfr? Wel, llyfr dysgu Cymraeg, wrth gwrs.*




# Englynion y Babell Lên i A.S. Bedwellte

**Y nefoedd mi wnawn hafoc — yn y Tŷ**
**Petai gennyf fatoc**
**Cawn sbri pe cawn i roi cnoc**
**I le canol Neil Kinnock**

**(TÎM ARFONWYR)**

**Yr oedd ffrwd ar ei hardd ffroc — cria hi**
**Rhag creu mwy o hafoc**
**Cawn sbri pe cawn i roi cnoc**
**I le canol Neil Kinnock.**

**(TÎM CEREDIGION)**

**Breuddwydiaf am greu hafoc-i'w le ing**
**A blingo'r hen ---,**
**Cawn sbri pe cawn i roi cnoc**
**I le canol Neil Kinnock**

**(TÎM Y COLEGAU)**

**Pe cai roi ar bawb stop coc — a welem**
**Ein hysgolion mewn hafoc**
**Cawn sbri pe cawn i roi cnoc**
**I le canol Neil Kinnock**

**(TÎM MORGANNWG)**

# GOLYGYDDOL

Dyma hi'n fis Medi unwaith eto a phawb â'u golygon ar brysurdeb y gaeaf. Nid bod yr haf wedi bod yn llawer o seibiant i'r rhan fwyaf ohonom, wrth gwrs; ni all neb lai na synnu wrth lafur ac ymroddiad trigolion Caerdydd yn yr ymdrech i wneud Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd gyda'r mwyaf llwyddiannus a gynhaliwyd erioed. Diolch yn fawr i bawb a weithiodd mor galed i sicrhau hynny: roedd y canlyniad yn llawn gyfiawnhau'r ymdrech.

Un o'r pethau mwyaf trawiadol ynglŷn ag Eisteddfod Caerdydd oedd newydd-deb, gwreiddioldeb a chyffro'r ŵyl. Dyma Eisteddfod y meysydd parcio Cymraeg a dim tagfeydd traffig, diolch i Ganolfan yr Urdd; Eisteddfod y perfformiadau ysgubol o *Dic Penderyn* a dewis digyffelyb o ddramau, rifiws, dawnsfeydd a chyngherddau roc gyda'r nos; Eisteddfod lle tynnwyd sylw mewn modd deifiol at Seisnigrwydd cynyddol y maes o flwyddyn i flwyddyn, gan Gymdeithas yr Iaith. (Dyma hefyd yr Eisteddfod lle cafodd Jim Callaghan dragwyddol heol i draddodi araith wleidyddol uniaith Saesneg o lwyfan y Pafiliwn, tra boddwyd geiriau Cymraeg John Morris o'r un llwyfan gan brotest yn ddiweddarach yn yr wythnos.)

A dyma'r Eisteddfod lle codwyd y llen ar bosibiliadau Cymru ddelfrydol lle byddai'r cyfryngau torfol yn hybu ac yn atgyfnerthu'r iaith yn hytrach na'i lladd, gyda theledu'r BBC a Harlech a Radio Cymru yn darlledu oriau lawer o Gymraeg bob dydd, nifer o ffilmiau fideo Cymraeg yn cael eu dangos yma ac acw ar y maes gan sefydliadau mor amrywiol â'r mudiad Cymorth i Wragedd a Chymdeithas yr Iaith, ac wrth gwrs, y *Dinesydd Dyddiol* yn dod â holl newyddion y Steddfod yn Gymraeg i filoedd o ddarllenwyr bob dydd. Meddai'r Athro J. Gwyn Griffiths am y papur yn *Y Cymro*: "Roedd ei ddarllen fel cerdded i fewn i fyd newydd. Mynegbost, gobeithio, i ddyfodol ein cenedl."

Wel, mae'r *Dinesydd Dyddiol*, fel Eisteddfod Caerdydd hithau, yn rhan o hanes bellach. Does dim amdani nawr ond disgwyl am Eisteddfod Caernarfon i weld a ail enynnir y gwreichionyn a daniwyd yng Nghaerdydd gan bapurau'r fro honno. Teimlwn yn gwbl hyderus y digwydd hynny — nid yn unig yng Nghaernarfon ond ym mhob Eisteddfod wedi' hynny gan bod bellach rwydwaith o bapurau bro ar gyfer pob rhan o Gymru bron. Gobeithio yn y dyfodol yr aiff hi mor amhosib meddwl am Eisteddfod heb bapur dyddiol Cymraeg ag Eisteddfod heb Orsedd neu heb lolipops Harlech.

A phwy a ŵyr, wrth i fwy a mwy o bapurau bro Cymru gael y profiad o droi'n bapurau newyddion go iawn am wythnos, na fydd hynny'n prysuro'r dydd y gellir sefydlu rhyw fath o asiantaeth genedlaethol gan yr holl bapurau bro, i greu un rhwydwaith eang o ohebwyr a dosbarthwyr gyda'r bwriad o sefydlu papur dyddiol Cymraeg cenedlaethol i Gymru yn y man?

Ond i ddychwelyd o fro breuddwydion — mae'n debyg fod yna rai unigolion anffodus yn dal i fod yng Nghymru na chawsant setiau cyflawn o'r *Dinesydd Dyddiol* hanesyddol. (Mae yna lawer o bobl eraill wedi gwneud yn fwy na sicr o'u setiau, wrth gwrs: clywsom son am rai pobl yn mynd â setiau cyfain yn ôl i'r Gogledd i'w gwerthu am grocbris i Adferwyr a fethodd Steddfod eleni; clywyd am eraill yn llenwi seleri eu tai â setiau o'r papur, i'w hatgyfodi ymhen rhyw hanner canrif pan fyddant yn werth miloedd... wel, dyna'r ddamcaniaeth, o leiaf!)

Ond i unryw un na chafod set gyflawn yn ystod yr Eisteddfod, mae'r *Dinesydd* yn awr yn bwriadu cynhyrchu pecynnau. Dim ond nifer gyfyngedig o'r pecynnau hyn fydd ar gael (am £1.00 y pecyn, yn cynnwys cludiant) felly archebwch yn awr drwy gwblhau'r ffurflen ar y dudalen hon.

I gloi, carem ddiolch o galon i'r holl bobl a weithiodd mewn cymaint o wahanol ffyrdd i'w gwneud hi'n bosibl cynhyrchu a gwerthu'r papur o gwbl. Does dim lle yma i ddechrau eu rhestru, ond maen nhw'n gwybod pwy ydyn nhw. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

# O'R POST

*Annwyl Olygydd,*

*Cyfranais erthygl ar "Dwf y Bywyd Cymraeg" yng Nghaerdydd yn Rhaglen y Dydd ar gyfer Eisteddfod Caerdydd a cheisiais sôn am bawb a phopeth oedd wedi cyfrannu tuag at y twf syfrdanol yng Nghymreictod y ddinas. Yn anffodus, roedd rhaid dibynnu ar y cof am nifer o'r ffeithiau a thrwy hynny fe anghofiais i sôn am rai pethau. Felly trwy golofnau'r* **Dinesydd** *hoffwn wneud iawn am fy anghofrwydd.*

*Yn gyntaf hoffwn sôn am Barti Penillion Lisa Erfyl fu'n fawr ei bri am gyfnod cyn daeth Parti Penillion Nan Jones i barhau'r gwaith. Yna, ar ymadawiad Nan Jones â Chaerdydd Parti Penillion arall gan Carys Williams gan wneud yn siŵr y byddai Caerdydd yn dal gafael ar y grefft o ganu penillion.*

*Hefyd, wrth sôn am Barti Cydadrodd Tŷ'r Cymry fe ddylwn i fod wedi sôn am Eirwen Davies a fu'n gyfrifol am roi cychwyn i'r Parti ac a fu'n ei hyfforddi am nifer o flynyddoedd gyda llwyddiant mawr.*

*Yn olaf (bydd rhywrai siŵr o ychwanegu at y rhestr) hoffwn gyfeirio at waith gwych Roger Boore a sefydlodd Gwasg y Dref Wen yng Nghaerdydd. Mae'r Wasg yma wedi bod yn gyfrifol am gyhoeddi ugeiniau o lyfrau lliwgar ac atyniadol yn Gymraeg yn arbennig i blant ac yn sicr fe ddylwn gydnabod pwysigrwydd y cyfraniad yma i frwydr yr iaith.*

*Yn gywir,*

GWILYM E. ROBERTS

*ANNWYL OLYGYDD,*

*Rhag ofn i unrhywun sydd am fynd i ddosbarth Dr. Meredydd Evans, mis Hydref, fethu cael copi o'r gyfrol 'Ac Onide', mae gen i gyfeiriadau tri pherson caredig sy'n barod i roi'r llyfr ar fenthyg am flwyddyn. Am fanylion pellach, cysyllter â Mrs Dorothy Wood, 206 Newport Road, Caerdydd.*

*Yn gywir iawn,*

DOROTHY WOOD

# PECYNNAU Dinesydd Dyddiol

Dyma newyddion da i'r nifer fawr ohonoch sydd wedi bod yn holi os oes modd prynu copïau o'r *Dinesydd Dyddiol*! Fe fydd pecynnau arbennig ar werth cyn bo hir, am £1 yn unig, ac fe gewch werth eich arian, gan y bydd yn cynnwys —

1. 6 rhifyn *Dinesydd Dyddiol*.
2. Y rhifyn cyfredol sy'n cloi'r Ŵyl.
3. Posteri anferth y *Dinesydd Dyddiol*.
4. Sticeri, a manion eraill.

Archebwch nawr gan nodi'ch cyfeiriad, a sawl pecyn yr hoffech.

ENW. ____________________

CYF. ____________________

____________________

____________________

NIFER O BECYNNAU [ ]

Anfonwch y ffurflen, ynghŷd â'r arian i — Dinesydd Dyddiol, 121 Heol Connaught, Parc y Rhath.

# PENBLWYDD HAPUS!




*Llun o barti penblwydd Eleri Haf Cosslett ar faes yr Eisteddfod ym Mhentwyn, dydd Sul, Awst 1af. Mae Eleri yn y canol ar gefn y ceffyl pren.*

*Eraill yn y llun yw — Holly, Helen, Rhian, Mererid, Kathryn, Nia, Siân, Emma, Siân Jobbins a Non.*

**Tra'r oedd yr ymwelwyr â Chaerdydd dros yr ŵyl yn ei throi hi am adre, tuag *at* y maes ym Mhentwyn yr anelai criw hapus o blant y ddinas. Mynd yno 'r oeddan nhw i barti penblwydd Eleri Cosslett. "Yn y pafiliwn?" meddech chi. Nage, yn hafan bach bendigedig y Comisiwn Coedwigaeth.**

Wrth reswm roedd y llecyn yn ddelfrydol i barti penblwydd — roedd byrddau yno'n barod, a doedd dim ots o gwbl os digwyddai i'r sudd oren droi ar y llawr — doedd dim carped. Ar ôl bwyta'r bwyd (bron i gyd) treuliodd Eleri a'i ffrindiau brynhawn difyr yn gwneud llawn-ddefnydd o siglenni, si-so, a sleid y Comisiwn. Roedd tim y *Dinesydd Dyddiol* yn digwydd bod yn clirio allan o'r babell bnawn Sul a charem ddiolch i Eleri am y gwahoddiad i ymuno â'r parti. Cystal oedd y bwyd — a'r hwyl — fel i Cen fwyta tri jeli cyn neidio ar y siglen agosaf.

(Awgrymodd rhywun — yn nhudalennau'r *Dinesydd Dyddiol* — y dylid ehangu ar y math o weithgarwch i blant a gynigir gan y Comisiwn Coedwigaeth trwy gael siglenni neu fframiau dringo yma ac acw ar y maes. Byddai'r plant wedyn yn gallu difyrru eu hunain wrth i'w rhieni aml-sgyrsiog grwydro'r maes.)

OS BYDDWCH YN PRYNU NEU'N GWERTHU, MAE'N TALU FFORDD I YMGYNGHORI A'R ARBENIGWYR.

antiques UNLIMITED

PRYNIR EITEMAU SENGL NEU GYNNWYS TAI YN EU CRYNSWTH

7 Heol Penllin Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Tel: 62748 neu 616415.

# COLOFN
## Shân Emlyn

**Cofiaf Nain yn dweud wrthyf droeon am yr adeg pan oedd ganddi lond tŷ o blant mân ac fel byddai fy Nhaid yn codi'i chalon trwy ddeud "Hidia befo Jane, pan aiff y plant 'ma dros y nyth mi âi a ti i'r Sowth iti gael gweld capeli Batus iawn"!**

Yr hyn a ddaeth a'r atgo yna'n ôl i mi oedd teithio o Gaerdydd i Rhymni a sylwi ar y capeli enfawr ar y ffordd. Welodd Nain mo gapeli'r Sowth a chydig feddyliai y byddai ei wyres yn teithio i Eisteddfod yn Rhymni. Ie, dyna wnaeth Lisa Erfyl a minnau — mynd i Eisteddfod Cwm Rhymni, a dyna bnawn hapus a gawson.

Sylwi i ddechrau fel mae'r bryniau glo ar y ffordd wedi glasu a sylweddoli bod yna harddwch yn y gornel ddiwydianol hon. Mynd gan feddwl mai mewn rhyw neuadd ddigysur y cynhelid yr Eisteddfod ond dod o hyd i babell enfawr mewn cae a bryniau glas tlws o'n cwmpas. Mynd a wnaethom am ein bod awydd cefnogi'r criw bach dygn a fentrodd ail godi'r hen Eisteddfod hon. Cymysg oedd fy nheimladau gan na fum i mewn Eisteddfod ddwyieithog o'r blaen. Y peth cynta a'm swynodd oedd athrylith yr arweinydd Jack Jones a lithrai'n rhwydd o'r naill iaith i'r llall gyda sylwadau diwylliedig a pherthnasol ar y darnau a ganwyd yn y gystadleuaeth cân o oratorio. Dotio wedyn at y gystadleuaeth adrodd agored a rhyfeddu at gof a dawn henwr penwyn o Ferthyr a gipiodd y wobr — a deall wedyn iddo ennill yr un gystadleuaeth hanner can mlynedd yn ôl.

Roedd yno gystadlu o safon uchel iawn — ond yn anffodus tenau iawn oedd y gynulleidfa. Er waetha hyn roedd yna deimlad o frwdfrydedd a chyffro ac mae gen i deimlad y bydd hon yn tyfu i fod yn un o Eisteddfodau mawr Cymru ac y byddaf yn ymfalchio rhyw ddiwrnod i mi fod yn bresenol yn y cychwyn bach mentrus. Hwyrach y talai i'r trefnwyr ystyried dyddiad arall a alluogai blant a chorau ysgol i gystadlu. Amhosib yw casglu pobol ynghŷd ar Sadwrn Gŵyl y banc.

Peth arall a'm tarawodd oedd cynhesrwydd, asbri a charedigrwydd y bobol leol. Er enghraifft cyflwynwyd tusw o flodau i wraig yr henwr a enillodd y brif adroddiad felly hefyd i'r ddwy wraig a ddaeth yn gydradd dryd-ydd ar ganu emyn i rai dros drigian oed. Cafwyd egwyl i bawb gael te ac fe gefais gyfle i sgwrsio â llawer o'r bobol. Coronwyd hwyl y prynhawn wrth i ni ddod allan o'r te a gweld Côr Meibion Ferndale yn sgwrsio ar y cae ac yn sydyn yn torri allan i chwerthin yn afreolus. Y rheswm? Fen lyfrau *Oriel* yn troi am adre ac yn gyrru allan o'r cae yn syth drwy raff a pheg a ddaliai dŷ bach y merched at ei gilydd gan ei thynnu i lawr a Chôr Meibion Ferndale yn llygad rythu'n ddisgwylgar i weld a ddiorseddwyd rhywun gan yr anffawd! Bydd — mi fydd raid mynd i Rymni'r flwyddyn nesa, a mynd, gobeithio, a chystadleuwyr efo ni.

HTV CYMRU WALES

## YSGRIFENYDDES

Mae angen ysgrifennyddes i'r Rheolwr Rhaglenni Cynorthwyol, Cymru i weithio yn Y Ganolfan Deledu yng Nghaerdydd. Dylai'r ymgeiswyr fod yn rhugl yn y gymraeg.

Mae'r gwaith yn ddiddorol ac yn amrywiol, ac yn gofyn cryn hunan-hyder — mae'r gallu i weithio heb gyfarwyddyd yn hanfodol. Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus fod â phersonoliaeth fywiog, ac mae cymwysterau ysgrifenyddol o'r radd flaenaf yn angenrheidiol ar gyfer y swydd hon.

Cyflog £2,739 (sy'n cynnwys Atodiadau I a II) ynghŷd â chodiad cyflog pellach dan drafodaeth.

Dylai'r ymgeiswyr, mab neu ferch, anfon am ffurflen gais gan gynnwys amlen wedi'i hunan-gyfeirio (nid oes angen stamp) at:

**Y Swyddog Staffio,
HTV Cymru,
Y Ganolfan Deledu,
Caerdydd CF1 9XL.**

# Y GAIR OLAF.... O'R STEDDFOD

## Beirniadu dulliau rhyfel

**Mewn araith rymus i'r Gymdeithas Ddiarfogi Niwclear soniodd Dafydd Elis Tomos am ddulliau newydd o ryfela sy'n cael eu perffeithio gan wledydd Cyngrair Iwerydd (NATO). Y dyddiau hyn canolbwyntir ar ymchwil a fydd yn galluogi'r Unol Daleithiau i daro'n gyntaf yn erbyn gelyn dychmygol. Daeth y ddyfais erchyll honno, y bom niwtron, i'r amlwg yn ddiweddar a manylodd y siaradwr ar effeithiau brawychus hwnnw.**

**Dyfynnodd un o gyn-benaethiaid y CIA, a alwodd y bom hwnnw'n arf cyfalafol penigamp, gan ei fod yn difa pobl heb ymyrryd ag eiddo.**

Ym Mhrydain mae nifer cynyddol o luoedd yr Unol Daleithiau. Awyrennau'r wlad honno sy'n defnyddio tir Cymru fel ysgol fomio anferth. Fe werir miliynau o bunnau, yn ôl Mr Tomos, gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, heb fod gennym ni fymryn o hawl i wybod ar beth. Ymosododd yn chwyrn ar ddiffyg sêl yr Arglwydd Goronwy Roberts yn y maes yma ac yntau'n Weinidog dros ddiarfogi niwclear. Beirniadwyd y wasg yn Lloegr am wrthod cyhoeddusrwydd i benderfyniad chwyldroadol Prif Weinidog Canada i ddatgysylltu ei wlad o'i swyddogaeth niwclear yn Ewrop. Dadlennodd Mr Tomos y modd y mae'r Americanwyr yn ystyried y cyfan fel theatr, America'n gynulleidfa a gwledydd Ewrop yn actorion.

Onid ydym wedi caledu'n ormodol wyneb yn wyneb â'r bygythiad niwclear. Beth ddigwyddodd i ymwybyddiaeth gyhoeddus dyddiau'r CND.

Clodforodd ddulliau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg gan eu bod yn llwyddo i ennyn ymateb a chreu ymwybyddiaeth boblogaidd.

Credai fod mwy o angen dulliau o'r fath ym maes diarfogi niwclear. Wedi'r cwbwl mae'n bosib fod angen grym poblogaidd yn ogystal â seneddyddiaeth er mwyn gweithredu delfrydau.

Trueni fod cyn lleied yn bresennol i glywed galwad yr Aelod Seneddol dros Feirionnydd.

## Protest Cyfeillion Iwerddon

**Am 2.30 brynhawn ddydd Iau yr Eisteddfod cynhaliwyd gwrthdystiad y tu allan i babell HTV i brotestio yn erbyn y modd y lledaenir propaganda Prydain gan y cyfryngau yng nghyd-destun y rhyfel yn Iwerddon.**

Cynhaliwyd y biced gan Gyfeillion Iwerddon yng Nghymru. Dywed y Cyfeillion i'r IBA wrthod darlledu ffilm gan dim *This Week* yn manylu ar artaith y carcharorion rhyfel yn Iwerddon a chyfeiriant at y ddrama gyfres newydd, *Spearhead*, lle y portreadir y digwyddiadau erchyll yn Iwerddon "fel rhyw fath o antur *Cops and Robbers*.




Brawychus yw meddwl am y fath amgylchiadau y mae'r carcharorion yn byw ynddynt. Y maent yn noeth heblaw am flanced, ar eu pennau eu hunain am bedair awr ar hugain y dydd, saith niwrnod yr wythnos, mewn celloedd a baentiwyd yn wyn heb ddifodd y golau hyd yn oed yn y nos. Dan Gytundeb Genefa y mae ganddynt yr hawl i statws Carcharorion Rhyfel am eu bod yn aelodau o fyddin *guerilla* ddisgybledig. Cafwyd Prydain yn euog o artaith gerbron Comisiwn Hawliau Dynol Ewrop ac mae Amnest Ryngwladol newydd ddatgan y parheir i ddefnyddio artaith yn Iwerddon, ond ni newidiodd hyn odid ddim ar y sefyllfa.

## Y Stiwdio Gerdd

**Does dim amheuaeth na fu'r Stiwdio Gerdd eleni yn llwyddiant ysgubol gyda bri ar y trafodaethau, brwdfrydedd y plant yn sesiynau cerddoriaeth Karl Orff, a rhaglenni o safon uchel yn denu nifer dda o eisteddfodwyr.**

Tanlinellwyd y gosodiad hwn ar ddydd Iau pan oedd y babell yn orlawn i wrando ar grwp recorders Ysgol Ifor Bach, Senghennydd dan ofal Siân Parry, ac eto ar ddydd Gwener pan gafwyd dwy awr wefreiddiol o alawon gwerin a sgwrsio — yn gyntaf sesiwn o ganu dan ofal Shân Emlyn ac yna darlith odidog ar alawon gwerin Morgannwg gan y Doctor Meredydd Evans, gyda chymorth lleisiol ei wraig Phyllis.

Bu Mr John Davies eto yn trafod y Solffa ddwywaith, ac erbyn hyn gobeithio iddo ennill nifer o gefnogwyr i fyddin y Tonic Solffa!

Tybed a fydd Stiwdio Gerdd yng Nghaernarfon? Ac os oes, pwy fydd yn ei noddi? Yn sicr, bydd Pwyllgor Cerdd Eisteddfod Caerdydd yn gwneud ei ran trwy ohebu â Phwyllgor Cerdd Cyngor yr Eisteddfod, a threfnydd y Gogledd, ond os oes 'na ddarllenwyr o Gaernarfon a'r cylch wedi bod yn y Stiwdio, ac yn gweld ei gwerth hi, yna mynnwch weld Stiwdio Gerdd ar y maes bob blwyddyn. Mae dyfodoll cerddoriaeth yng Nghymru yn dibynnu ar weithgaredd arloesol fel hyn.

**HYWEL GRIFFITHS**



## Canolfan Ddiwydiannol i Gaerdydd

**Galwodd Mr Peter Gillard, peiriannydd sifil, am sefydlu Canolfan Ddiwydiannol Gymreig i wasanaethu anghenion diwydiant yng Nghymru. Dywedodd hyn mewn cyfarfod cyhoeddus dan nawdd y Gymdeithas Wyddonol ar faes yr Eisteddfod.**

"Mae'n rhaid i Gymru fod ar y blaen i'w chystadleuwyr," dywedodd Mr Gillard, "a byddai Canolfan o'r math hwn a'i phwyslais ar ddatblygiadau'r dyfodol yn cynnal y momentwm sydd a'i angen ar ddiwydiant yng Nghymru i'w alluogi i oresgyn problemau cyfoes diweithio a diboblogi." Gellid sefydlu'r fath Ganolfan yng Nghaerdydd, a'i chost byddai £4m a gellid benthyca tri chwarter o'r swm hwn o'r Farchnad Gyffredin; byddai trethdalwyr Cymru yn gyfrifol am weddill y swm, a olygai dreth o ugeinfed ran o geiniog yn y bunt.

Roedd y cyfarfod hwn yn uchafbwynt wythnos o weithgareddau gwyddonol heb ei hail yn hanes yr Eisteddfod. Am y tro cyntaf yn ei hanes mae awdurdodau'r Eisteddfod wedi cydnabod pwysigrwydd technoleg yng Nghymru gyfoes trwy gynnwys arddangosfa TECHNO 78 a brofodd yn hynod o boblogaidd a thrwy gynnal darlith wyddonol arbennig ynghyd â nifer o gystadlaethau.

Roedd croeso yn y cyfarfod i'r digwyddiadau hyn a mynegwyd y gobaith y cael ymateb positif ar ran prifddinas Cymru i awgrymiadau Mr Gillard.

## Dim Toilet!

Daeth nifer o bobl i babell y *Dinesydd Dyddiol* i gwyno am y diffyg cyfleusterau i bobl fethiedig ar faes yr Eisteddfod. Nid oes yna faes parcio arbennig cyfleus i bobl dan anfantais gorfforol, na chyfleusterau toiled — ac nid oes yna'r un fynedfa i'r Pafiliwn nad oes angen esgyn grisiau i gyrraedd ati. Yn wir, yr unig babell hawdd mynd iddi yw'r Pafiliwn Celf a Chrefft sydd â ramp wrth y ddwy fynedfa.

Dywedodd un wraig iddi hi geisio codi'r mater ar ddiwedd cyfarfod y Llys brynhawn Mercher ond fe'i hanwybyddwyd a chaewyd y cyfarfod yn ddigon diseremoni heb roi cyfle iddi hi siarad. Mae'n warthus o beth, mewn cyfnod pan mae'r Gweinidog dros y Methiedig wedi galw am ymdrech arbennig i ymateb i anghenion pobl fethiedig a'i gwneud hi'n bosibl iddynt hwy fwynhau'r un cyfleusterau a phobl eraill mwy ffodus na hwy, nad yw Prifwyl Cymru wedi rhoi sylw teilwng i'r mater pwysig hwn. Gobeithio y bydd pethau wedi gwella erbyn Steddfod Caernarfon.

# Siarad â'r Cyfarwyddwr

**Fe fydd un dyn yn siwr o gofio Eisteddfod Caerdydd, 1978. Hon oedd Eisteddfod gyntaf y cyfarwyddwr newydd, Emyr Jenkins a mae ganddo syniadau pendant ar y rhan yr hoffai ef ei chwarae yn nyfodol ein Gŵyl Genedlaethol.**

Gŵr o Bowys yw Mr Jenkins, ond wedi hen ymgartrefu bellach yn y brifddinas. Yn ei olwg nid peth ffals a thros dro mo'r gweithgareddau Cymraeg lu sy'n nodweddiadol o'r ddinas. Yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf daeth miloedd o Gymry ifanc i ystyried Caerdydd fel eu hunig gartref.

Fel y pwysleisiodd yn ei araith o lwyfan yr Urdd yn Llanelwedd, dylem fod yn ymosodol ein Cymreictod trwy genhadu'n ddibaid. Ni ddylai mewnplygrwydd ein rhwystro rhag efengylu ymhlith y rhai difater. Cafodd y profiad o ddangos ffilm yr Eisteddfod yn ardal Caerdydd gryn effaith arno. Fe'i dangoswyd dros drigain o weithiau ac fe brofodd y cynulleidfaoedd brwd iddo fod gobaith bob amser i goncro tir newydd. Ni ddylai hynny fod ar draul yr ardaloedd Cymraeg, ond os yw Caerdydd i fod yn brifddinas Cymru dylem ymdrechu i'w gwneud yn brifddinas Gymreig.

Digon llwm yw swyddfa'r cyfarwyddwr ond mae croeso cynnes i unrhyw un sydd am droi mewn. Bydd yma gartref sefydlog i'r Wyl symudol. Nid yw Emyr Jenkins yn rhagweld cartref sefydlog i'r Eisteddfod ei hun. Perygl datblygiad o'r fath fyddai colli cysylltiad â'r werin Gymraeg sy'n gefn i'r gweithgareddau. Ni phrofwyd, beth bynnag, y byddai un ganolfan yn sicrhau llwyddiant ariannol. Gyda hyn mewn golwg y sefydlwyd gweithgor i astudio dyfodol yr Eisteddfod.

Bydd cwmni o gyfrifwyr yn cyflwyno amcangyfrif o gostau cartref sefydlog, neu o symud bob dwy neu dair blynedd. Posibilrwydd pellach yw sefydlu dau gartref sefydlog, un yn y Gogledd ac un yn y De. Ond cofiwn mai gwasanaethu diwylliant yw 'raison d'être' yr Eisteddfod, ac mai hwnnw ddylai gael y lle blaenaf mewn unrhyw drafodaeth.

Roedd sylweddoli y byddai gwaith y cyfarwyddwr yn ymestyn dros holl weithgarwch yr Eisteddfod wedi bod yn ysgogiad cryf iddo geisio am y swydd, a rhagwelai Mr Jenkins y byddai'r Wyl yn ymestyn i gynnwys y penwythnos cyn yr Eisteddfod hefyd. Carai longyfarch y BBC am wneud defnydd helaeth o'r pafiliwn cyn yr Wyl ei hun a gellir cymryd yn ganiataol y bydd Eisteddfodau'r dyfodol yn dilyn cynlluniau tebyg.

Nid yw am wyro modfedd o'r rheol Gymraeg. Onid yr Eisteddfod yw'r unig le cwbl Gymraeg sydd ar ôl yn y Gymru sydd ohoni? Ar y telerau yma gallwn groesawu pawb i mewn a'u hannog i wneud defnydd llawn o'r cyfleusterau cyfieithu. Rhaid bod yn ymosodol ein propoganda. Fel rhan o'r ymgyrch hon bu Mr Jenkins yn siarad ac yn trafod gyda newyddiadurwyr tramor, gwŷr busnes a gweinyddwyr y llywodraeth. Hyn sy'n cyfrif i raddau helaeth am yr Americanwyr, yr Almaenwyr, y Siapaneaid a'r Ffrancwyr a welwyd ar y maes eleni. Profwn i'r byd mai hon yw ein gŵyl werin fwyaf.

Ymgymryd â'r swydd hon yw her fwyaf ei fywyd hyd yma. Honnodd yn Llanelwedd y byddai pobl yn holi ymhen blynyddoedd beth oedd cyfraniad pob unigolyn ym mrwydr yr iaith. Cred Emyr Jenkins y gall ef wneud cyfraniad gwerthfawr fel cyfarwyddwr cyntaf yr Eisteddfod Genedlaethol.

DEWI LLWYD WILLIAMS

# Fflat Huw Puw

**Cychwynnodd aelodau Cymdeithas Gymraeg Dinas Powis yn hwylus ar ei trip blynyddol. Eleni, y bwriad oedd mynd ar hyd Camlas y Fenni hyd at hen warff Y Goytre. Gwae ni fel arfer! Toc ar ôl gadael Casnewydd ar ganol darn gwbl annidorol o'r Drafford dyma deiar fflat — yn wir dau deiar fflat!**

Dyna'r criw, yn blant, rhieni ifanc a chanol oed yn gorfod dioddef dwy awr bron o aros ond eto roedd pawb yn llawn hwyl. Allan a'r plant i gae cyfagos i chwarae *rounders* ac allan a'r tuniau bwyd blasus i'r babanod — bwydydd danteithiol fel chicken and vegetables a pineapple surprise. Cafwyd cyfarfod brys o'r Pwyllgor ac ar ôl ffonio dibaid ac ail drefnu dyna fws arall yn dod i'n achub ni — bws newydd o Gasnewydd. Cludwyd y criw yn hwylus tuag at y *King of Prussia* ger y Fenni i fwyta cyw a sglodion ac ati ond gwae ni eto dyna deiar fflat eto i fws newydd sbon! Tybed a oedd y llun hyll o hen fran fawr ddu ar ochr y bws rhywbeth i wneud a'r peth. Wel, nôl eto at y ffôn — ac ar ôl hir aros dyna fws arall yn cyrraedd yn dwyn rhif 007 — rhaid i hwn fod yn iawn a chofio James Bond!! Tybed ai dyna ddiwedd ein trafferthion — o nace! Coeliwch chi byth. Ar ôl cyrraedd y gamlas dyma'r hen gwch yn gafael yn dyn yn y lan ar ôl inni symud am rhyw filltir neu ddwy ac allan a'r dynion i wthio a gwthio i'n cael ni allan.

Gwyrth oedd y ffaith ein bod wedi cyrraedd adre'n ddiogel mewn bws a'r gwres tanbaid yn chwythu i fyny coesau pawb!

Am hwyl ymunwch â'r Gymdeithas! Neuadd Eglwys San Pedr y Llun cyntaf o'r mis.

OWENA HOPWOOD

# Colofn hysbysebion personol

**YN EISIAU — Dwy ffrij ail-law — nid er mwyn oeri mewn stereo, ond i ddau berson gwahanol. Cysyllter â'r golygydd.**

**AR WERTH — Crysau-T *Dinesydd Dyddiol*. £1.50 yr un. Ychydig ar ôl.**

**AR WERTH**
Car — M.G.B. G.T. glas cofrestr 'E'. Cyflwr da M.O.T. am flwyddyn £485 n.c.a. Ffôn: 842123.

**Os hoffech chi werthu/prynu/gyfnewid unrhywbeth defnyddiwch y golofn hon.**

---

**Ganwyd bachgen, Prys Gweirydd, i Rhoswen Deiniol ac Alcwyn ar Fedi'r 9fed. Llongyfarchiadau!**

**LLONGYFARCHIADAU — i Dewi Llwyd Williams a Nia Wynne Williams ar eu dyweddiad.**

---

**AR WERTH**

Tŷ Haf un llawr o fframwaith coed, ym Mhentref Cenarth Ceredigion ger glannau'r Teifi.

Am fanylion pellach ffoniwch:
Caerdydd 561866



# Y Silff Lyfrau

## Nofel Antur

**Am unwaith, dyma gyfrol sy'n llawn gyfiawnhau ei broliant. "Nofel antur/dditectif orau'r ganrif yn Gymraeg," bloeddia'r llythrennau breision coch ar glawr cefn nofel Roy Lewis — ac i mi, dyma nofel mor afaelgar ac amhosib-ei-rhoi-lawr ag unrhyw beth a ddarllenais gan Desmond Bagley, Alistair Maclean neu'r un o'r llu awduron "thrillers" eraill y mae diwydiant llyfrau poblogaidd Lloegr fel pebai yn eu darganfod mor rhwydd.**

Fel y llyfrau hynny, mae'r nofel hon wedi ei hysgrifennu i fformiwla ddigon cyffredin: dirgelwch hunan-laddiad personoliaeth adnabyddus, awgrymiadau fod 'na bethau digon amheus yn ei gefndir — problemau ariannol/anffyddlondeb i'w wraig/twyll cyffredinol — sy'n anodd i'r rheini oedd yn ei adnabod eu credu amdano. Yna ceir y math o dditectif y byddai dyn yn ei ddisgwyl: gŵr ifanc, golygus â chyffyrddiad o ddirgelwch ac unigrwydd o'i gwmpas, s'n ddigon i sicrhau'r elfen arall anghenrheidiol yn y fformiwla sef y bydd y ferch (neu ferched) y daw ar eu traws ar drywydd y dirgelwch yn syrthio mewn cariad ag ef.

Mae 'na gyffro a thrais, rhyw a chariad, cymeriadau sinistr a sefyllfaoedd iasoer — ac y mae'r cwbl yn *gweithio*, yn realistaidd ac argyhoeddiadol, peth prin iawn mewn nofel Gymraeg o'r fath, lle mae'r arwyr i gyd yn tueddu i fod yn saint, fel arfer, a'r drwgweithredwyr i gyd yn wallgofion mewn clogynau du, ag un llygad ar goll ac yn siarad mewn acen estron, fel ei bod hi'n syndod na fuasai unrhyw blismon hanner-call wedi eu restio cyn gynted ag edrych arnynt!

Nid nad oes gwendidau yn y llyfr. Mae'r plot ei hun dipyn bach yn anghredadwy yn y pen draw, a rhai o weithredoedd yr Athro John Griffiths ei hun yn anesboniadwy braidd; mae diflaniad ei weddw o rediad y stori ar ôl y tudalennau cyntaf ychydig yn od hefyd. Ond manion yw'r rhain i'w gymharu â phleser pur cael ymgolli mewn darllen "sbwriel" gafaelgar Cymraeg, gan daflu i'r gwynt pob syniad am "ystyr" a rhagoriaeth lenyddol sy'n llyffethair ar ddyn wrth iddo ddarllen llyfr Cymraeg fel arfer. Nid bod llawer o'i le ar yr ysgrifennu ei hun: mae'n llithrig ac yn rhugl gyda deialog sydd, ar y cyfan, yn naturiol dros ben. Ceir perlau bach anfwriadol ddoniol yma ac acw, megis ar dud. 79: "....daeth Olwen i'r ystafell. Yr oedd hi wedi ei gwisgo'n anffurfiol, mewn bra a nicars, a chariai dywel yn ei llaw."

**Diolch i'r Lolfa am fod ar y blaen unwaith eto gyda llyfr sydd yn mynd i roi mwynhad mawr i filoedd o ddarllenwyr. Dim ond un peth arall y carai dyn ei ofyn ganddynt: oes rhyw obaith perswadio Roy Lewis i wneud dros oedolion yr hyn mae Dafydd Parri a'i Lewod glew yn ei wneud dros blant Cymru — a sicrhau fod o leiaf ddwy neu dair o nofelau fel hyn yn ymddangos bob blwyddyn? Mae'n siwr y byddai croeso mawr iawn iddynt.**

*"Cwrt y Gŵr Drwg" Roy Lewis. Y Lolfa. £1.95.*

## Dy dro di

O bryd i'w gilydd cyhoedda'r Cyngor Llyfrau Cymraeg lyfrau ar gyfer Llyfrgelloedd yn unig. Ymgais yw'r cyhoeddiadau hyn i ddiwallu ychydig ar yr angen am lyfrau poblogaidd eu hapêl yn Gymraeg. Bwriedir y llyfrau i apelio at bobl nad ydynt fel arfer yn llengar a gan amlaf nofelau wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg o wahanol ieithoedd a geir.

Y nofel ddiweddara i ymddangos yw *Dy Dro Di* a droswyd o'r Almaeneg gan Rhion Pritchard. Nofel ramantus yw hi gyda'r digwyddiadau'n dechrau mewn ystafell ddeintydd. Mae'r prif gymeriad, Juliane, yn syrthio mewn cariad ag un o'r dynion sy'n dod i gael ei drin gan y deintydd. Gan ei bod hi'n gwybod nad yw ei chyfeillgarwch â'i chariad presennol yn debyg o barhau mae'n or-awyddus i syrthio am y gŵr golygus yn ystafell y deintydd. Yn sgil y digwyddiad gwelwn Juliane yng nghanol miri a hwyl y Swistir.


Er bod iaith y nofel yn ddarllenadwy a llyfn nid yw'r cymeriadau yn gredadwy iawn. Mae cymeriad Juliane yn hynod blentynaidd a gwan. Ond efallai bod lle i'r math hwn o lyfr sy'n hawdd ei ddarllen ac nad yw'n rhy hir.

*DY DRO DI (Barbara Noack) — Trosiad Rhion Pritchard. 159t. Gwasg Gomer 1978 — Llyfrgelloedd yn unig.*

## Trydedd Cyfrol

**Gŵr lliwgar a hoffus iawn ydyw Iago ap Hewyd ac fe'i gwelir ar faes yr Eisteddfod bob blwyddyn yn cynhorthwyo cyhoeddiadau Modern Cymreig Cyf. Eleni mae'n flwyddyn arbennig iddo gan y cyhoeddwyd ei drydedd gyfrol o farddoniaeth sef Awen Pechadur. Fe gyst 75 ceiniog.**

Y mae'r telynegion sydd yn y gyfrol yn rhai tyner, swynol ac yn adlewyrchu diddordebau'r gŵr hynaws sydd â'i wreiddiau yng nghefn gwlad Ceredigion. Ceir cerddi ar y ddinas a'r wlad, ar hiraeth a Gŵyl Ddewi, gwleidyddiaeth a brain yn ogystal â holl amrywiaeth bywyd cerddor a bardd. Pan ofynwyd i Iago ap Hewyd gan ohebydd *Y Dinesydd* pa un o'r telynegion sy'n mynegi ei brofiad orau atebodd — **O! cerdd i'm cyfaill y Prifardd L. Haydn Lewis, Llandaf,** sef, *Tawelwch Aberaeron.* Wedi'r cyfan yno y mae gwreiddiau Iago ap Hewyd.



*T. Arfon Williams yn arwyddo'i lyfr o englynion.*

**Ehangu dylanwad yr iaith —**

trosleisio tair ffilm enwog i'r Gymraeg.

1) 'Rhaid dinistrio Frankenstein'
12fed o Fedi — 10.30p.m.

2) 'SHANE'
NOS FAWRTH 19 MEDI
am 10.30p.m.

3) 'Cam y tad Mouret'
10.30 26ain Medi '78

HTV CYMRU WALES

Y Ganolfan Deledu Caerdydd.

# Gweld ar y maes

**Pleser o'r mwyaf i'r *Dinesydd Dyddiol* oedd cael cydweithio yn ystod wythnos yr Eisteddfod gydag Uned Fideo Cymunedol GWELD, o Flaenau Ffestiniog. Bu rhai o aelodau'r uned yn dangos detholiad o'r tâpiau fideo y maent wedi eu saethu yn ystod y misoedd diwethaf ym mhabell *Y Dinesydd* tra bu aelodau eraill yn saethu tâp o'r holl broses o gynhyrchu'r papur dyddiol Cymraeg cyntaf erioed.**

Sefydlwyd GWELD ym mis Ionawr eleni dan nawdd Cyngor Gwlad Gwynedd, gyda chyfarpar wedi ei ddarparu gan y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg a Chyngor Celfyddydau Cymru. Un o weithgareddau diweddaraf (a lleiaf hysbys i'r cyhoedd, hwyrach) y Bwrdd Ffilmiau yw datblygu fideo, nid yn unig fel cyfrwng recordio ond hefyd fel gwaith creadigol yn ei rhinwedd ei hun, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith. Ffrwyth y polisi hwn yw GWELD.

Yn ystod y misoedd diwethaf, y mae GWELD wedi gwasanaethu'r gymuned leol drwy gofnodi hanes digwyddiadau yn y fan a'r lle — achlysuron cymdeithasol, dramau ysgol, gwyliau pop, mabolgampau a chwaraeon a sawl carnifal lleol — ond bu'n gyfrifol am raglenni mwy cymhleth hefyd. Ymhlith y tâpiau a gyflwynwyd ar y maes roedd un yn rhoi hanes y Prawf Cynllwynio yng Nghaerfyrddin, tâp ar arlunwyr ym Methesda, a hanes Cwm Pennant gan Guto Roberts, sy'n rhoi amcan teg o ansawdd ac amrywiaeth y cyfrwng cyffrous hwn a'r defnydd y gellir ei wneud ohono yn y gymuned.

Mae'n siwr mai Eisteddfod Caerdydd yw'r Steddfod a gofnodwyd lawnaf erioed, gyda'r radio a'r teledu'n darlledu'n ddibaid o'r maes, *Y Dinesydd Dyddiol* yn argraffu hynt a helynt yr ŵyl o ddydd i ddydd, a chameau GWELD yn cofnodi pob math o ddigwyddiadau ar y maes — ac o gwmpas Caerdydd gyda'r hwyr, i ddangos ble mae Eisteddfodwyr yn mynd wedi iddi hi dywyllu! O ganlyniad i hyn oll, saethwyd cyfoeth o dâpiau, yn amrywio o brotest Cymdeithas yr Iaith ym mhabell y Rheilffyrdd Prydeinig i lwyddiant ysgubol *Dic Penderyn*, o seremoniau a chyngherddau'r Pafiliwn i nosweithiau roc, o Theatr Bara Caws yn perfformio'n hwyr y nos yn Titos, i'r copiau cyntaf o'r *Dinesydd Dyddiol* yn cael eu hargraffu ar y maes yn y bore bach.

Un gair pwysig i gloi: os na chawsoch chi gyfle yn ystod wythnos y Steddfod i weld y tâp hanesyddol ar gynhyrchu'r *Dinesydd Dyddiol* gobeithir trefnu i'w ddangos yng Nghaerdydd yn y dyfodol agos — gwyliwch *Y Dinesydd* am fanylion.

---

## EFRYDIAU ALLANOL

Fel arfer mae Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol, Caerdydd, wedi paratoi nifer helaeth o gyrsiau ar ein cyfer ni Gymry Cymraeg, a Dysgwyr.

Gallwch gael mwy o wybodaeth o Brospectws yr Adran Efrydiau Allanol.

CAERDYDD

Hanes Cymru trwy ei llenyddiaeth — J. Gwynfor Jones.

Hanes Lleol Caerdydd — J. Gwynfor Jones.

Ysgrifennu Cymraeg — Gilbert Ruddock.

Y Broses Greadigol mewn Drama — Gwenlyn Parry.

Golwg ar lenyddiaeth Cymru — Falmai Griffiths


Crefydd mewn Llenyddiaeth — Cynwil Williams

Agweddau ar Feddwl J.R. Jones — Meredydd Evans.

Cwrs Dwy Flynedd i Ddysgwyr (2) — Sian Angharad Edwards.

Cymraeg (1) a Chymraeg Pellach (2) — Gwyneth Phillips.

Cymraeg Pellach (4): Cwrs Pontio Terfynol — Eleri Rogers/Alun Treharne.


# Ffenestr-siop
# Y SIOP I CHI...

Pan fyddwch chi'n ystyried gwelliannau i'r cartref, ac yn wynebu'r broblem o gael ffenestr neu ddrws.

Beth am... ddod i ymweld â'r arbenigwyr yng Nghanolfan Ffenestri De Cymru a gweld bron 100 mlynedd o brofiad o wneuthur ffenestri ar waith?

...weld y detholiad ehangaf posib o ffenestri a drysau patio o ansawdd dda, a'u gweld yn cael eu gwneud yn y fan a'r lle?

...weld sut y gellir arbed ar filiau gwresogi drwy dorri i lawr ar y gwres a gollir a chynyddu gwerth eich tŷ ar yr un pryd?

...dderbyn cyngor ar osod cyfarpar i mewn eich hunan — gellwch arbed 50% arall felly.

...edrych ar ein telerau hûr-bwrcas?

**Yn yr amserau caled hyn, synhwyrol yw edrych CYN prynu.**

## CANOLFAN FFENESTRI DE CYMRU

Heol Curran, Caerdydd. tel. 388555
Llun-Gwen 9a.m. hyd 5p.m.,
Sad 9a.m. hyd hanner dydd.
Croeso mawr i'r Cyhoedd a'r Fasnach.

JONWINDOWS

*— yr enw y gellwch ymddiried ynddo* JWd

(Aelod o Grŵp John Williams o Gaerdydd Cyf.)



**Amgueddfa Genedlaethol Cymru**
**AMGUEDDFA WERIN CYMRU**

Gwahoddir ceisiadau am y ddwy swydd a nodir isod yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Disgwylir i ymgeiswyr fod wedi cyflawni cyfnod o brentisiaeth gydnabyddedig ynghyd â phrofiad helaeth o wahanol agweddau o'r gwaith gan gynnwys dulliau traddodiadol.

(a) TECHNEGYDD (SAER COED) — ADRAN ADEILADAU
(b) PAENTIWR/ADDURNWR

Telir Cyflog i'r ddwy swydd ar raddfa £2,980 - £3,623. Cynllun Pensiwn cyfrannol.

Manylion pellach a ffurflenni cais oddi wrth y Swyddog Sefydliad, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB.

Dyddiad olaf i dderbyn ceisiadau:-
Dydd Sadwrn, 23 Medi 1978.



## HYSBYSEBU

**Am fanylion ynglŷn â'n telerau hysbysebu, cysyllter â:**

**CYHOEDDWYR CLEGLEN CYF.**
**43 Heol Eglwys Gadeiriol Isaf,**
**Caerdydd CF1 8LW.**
**Ffôn: 0222 - 396262**

(Danfoner pob deunydd hysbysebu i'r cyfeiriad uchod, os gwelwch yn dda.)


*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf., 43 Lower Cathedral Road, Caerdydd. Ffôn: (0222) 396262.*